

Cymdeithas y Cymod

Mudiad o bobl Cymru sy'n credu yn y llwybr di-drais mewn ymateb i ryfel a militariaeth



Datganiad i'r Wasg 20 Mehefin 2019

Cael Llywodraeth Prydain yn euog o dorri ei chyfraith ei hunan.

Mae Cymdeithas y Cymod yn croesawu penderfyniad y Llys Apêl heddiw, 20.6.2019, sy'n datgan bod gwerthiant arfau'r Deyrnas Gyfunol i Sawdi Arabia i'w defnyddio yn yr Yemen yn ANGHYFREITHLON.

Mae hyn yn golygu y bydd hi'n rhaid i Lywodraeth Prydain roi'r gorau i drwyddedu gwerthu ac allforio arfau i Sawdi Arabia ac i ail ystryied ei holl benderfyniadau yn y cyd-destun hwn. Cafodd y Llys Barn Lywodraeth Prydain yn euog o fethu â sicrhau bod y Ddeddfwriaeth Ddyngarol Ryngwladol yn cael ei pharchu drwy'r gwerthiant arfau, a thrwy hynny, felly, ei chael yn euog hefyd o dorri ei chyfraith ei hunan.

Wedi i CAAT (Campaign Against Arms Trade) ddwyn yr achos yn erbyn y llywodraeth, amlygwyd bod gweithredu Llywodraeth Prydain nid yn unig yn anfoesol ond hefyd yn anghyfreithlon. Nid oes unrhyw gyfiawnhad dros drwyddedu gwerth biliynau o bunnoedd o arfau i'w defnyddio mewn anghydfod lle gwelir ysgolion, ysbysai, priodasau ac angladdau'n cael eu bomio'n ddirugaredd.

Dywed adroddiad diweddar fod yn agos i 100,000 o bobl wedi eu lladd yn y rhyfel yn Yemen. Mae newyn yn rhemp yn y wlad ac mae colera wedi effeithio ar dros filiwn o bobl. Ond rhaid peidio â meddwl mai problem rhywun arall yn rhywle ymhell i ffwrdd mo hon. Defnyddir Cymru at ddibenion rhyfelgar, ac ni ellir gwadu'r cysylltiad â'r hyn sy'n digwydd yn Yemen.

- Taniwyd y taflegryn "Storm Shadow" at Yemen. Profwyd hwn yn Aberporth gyda'r awyren Typhoon yn 2015. Mae Cymdeithas y Cymod wedi gwrthwynebu'r safle fel maes militaraidd o'r cychwyn, ac wedi gwrthdystio yno. (Mae'n werth cofio fod addewid am 1,000 o swyddi wedi ei wneud ond fod llai na 50 yno heddiw.)
- Mae cynlluniau ar y gweill i ddatblygu Maes Awyr Llanbedr ger Harlech er mwyn profi adar angau ("drones"). Cefnogir y datblygiad gan £500,000 o arian trethdalwyr drwy law Cyngor Gwynedd.
- Hyfforddwyd peilotiaid o Sawdi Arabia yn RAF Fali ar Ynys Môn, lle y cynhaliodd Cymdeithas y Cymod ac eraill wynnos o brotest llynedd.
- Mae Llywodraeth Cymru yn hyrwyddo'r diwydiant arfau a rhyfel, fel y gwelir yn amlwg o'u datganiadau cefnogol a'u cyhoeddiadau.

Dywedodd Mererid Hopwood, Cadeirydd Cymdeithas y Cymod:

"Mae'n hen bryd i ni sylweddoli bod gweithgareddau milwrol sy'n digwydd ar dir a daear Cymru yn arwain at ladd mewn rhyfeloedd tramor. Codwn ein lleisiau yn erbyn y fath greulondeb anwar sy'n effeithio ar bobl o bob math, hyd yn oed y plant lleiaf. Fel y dywed y gohebydd dyngarol Hisham al-Omeisy o'r Yemen: *'Yr arch leiaf yw'r arch drymaf.'*"

Mae gan Lywodraeth Prydain tan Fehefin 27 i benderfynu a yw'n bwriadu apelio yn erbyn y dyfarniad.

DIWEDD

Nodiadau i olygyddion

1. Cefndir yr achos llys. <https://www.caat.org.uk/resources/countries/saudi-arabia/legal-2016>
2. Erthygl ar ran y Deyrnas Gyfunol yn y rhyfel yn Yemen. <https://www.theguardian.com/world/2019/jun/18/the-saudis-couldnt-do-it-without-us-the-uks-true-role-in-yemens-deadly-war>
3. Adroddiad ar farwolaethau yn Yemen. <https://www.acleddata.com/2019/06/18/yemen-snapshots-2015-2019/>
4. Erthygl ar newyn a colera yn Yemen. <https://scopeblog.stanford.edu/2018/12/19/cholera-and-starvation-in-yemen-is-preventable-stanford-pediatrician-says/>
5. Cefnogaeth Llywodraeth Cymru i'r diwydiant arfau a rhyfel. <https://tradeandinvest.wales/advanced-materials-manufacturing/aerospace>